

Bil y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i edrych ar ddiwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r gwaith o adolygu'r Mesur wedi dechrau ac rydym yn casglu tystiolaeth o brofiad y cyrff sydd eisoes yn dod o dan y gyfundrefn safonau. Y bwriad yw i gyhoeddi Papur Gwyn cyn yr haf.

Mae'r amcanion polisi gwreiddiol yn aros yn ddilys, sef i sicrhau:

- a) gwasanaethau yn y Gymraeg sy'n gyson a safonol,
- b) atebolrwydd y cyflenwyr, a
- c) ffordd i unioni pethau os yw corff yn methu â chyrraedd safon.

Wrth adolygu'r Mesur, mae nifer o ffactorau allanol i'w hystyried.

Cyni ariannol

Mae'r cyfnod o gyni ariannol wedi parhau ers 2010 a dydyn ni ddim yn rhagweld gwelliant yn y tymor canolig. Mae Brexit yn creu risgiau ychwanegol ar y gorwel ariannol. Mae hyn yn rhoi pwysau sylweddol a pharhaus ar gyllid y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rhaid ystyried os oes modd ysgafnhau beichiau biwrocraidd sy'n tynnu adnoddau o wasanaethau rheng flaen.

Cymhwysedd y Cynulliad

Gwnaed y Mesur o dan Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol oedd yn cyfyngu pwerau'r Cynulliad i ddeddfu dros y Gymraeg. Mae'r setliad datganoli wedi newid, yn dilyn refferendwm 2011 a phasio Deddfau Cymru 2014 a 2017. Rhaid ystyried beth yw'r cyfleon a'r risgiau sy'n codi wrth ddeddfu dros y Gymraeg o dan gymhwysedd presennol y Cynulliad.

Miliwn o siaradwyr

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio tuag at gyrraedd miliwn o siaradwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050. Mae hyn yn creu amcan strategol uchelgeisiol. Rhaid ystyried sut allai deddfwriaeth gyfrannu at gynyddu defnydd yr iaith o fewn gwasanaethau, ac o fewn y gweithle.

Yn y cyd-destun yma, hoffwn glywed barn y Cyngor ar:

- y balans rhwng rheoleiddio a hybu a hyrwyddo defnydd yr iaith
- y gyfundrefn safonau, ac yn arbennig y broses o osod a gorfodi'r safonau
- swyddogaethau'r Comisiynydd